# WELI DI FI?

## Cefnogi plant ac oedolion ag awtistiaeth i ddefnyddio cludiant cyhoeddus

### BYDDWCH YN GLIR

Byddwch yn glir ac yn gryno

Peidiwch â defnyddio iaith ffigurol – gall idiomau a throsiadau fod yn ddryslyd

Peidiwch â dibynnu ar ystumiau, cyswllt llygad nac iaith y corff i gyfathrebu neu gyfeirio rhywun

### BYDDWCH YN AGORED

Ceisiwch ddechrau ymwneud yn gymdeithasol â'r unigolyn. Os oes angen help ar yr unigolyn, efallai na fyddant yn teimlo'n ddigon hyderus i ofyn

Ceisiwch beidio â defnyddio gormod o glebran cymdeithasol a chadw at sgwrsio pwrpasol

Rhoddwch gefnogaeth gyda rheolau a chonfensiynau cymdeithasol megis dod o hyd i sedd

### BYDDWCH YN DDIBYNADWY

Cynigiwch nifer cyfyngedig o ddewisiadau yn hytrach na dewisiadau rhydd

Esboniwch y broses yn glir i ddewis a thalu am docynnau

Gofynnwch gwestiynau penodol (e.e. “hoffech chi docyn dwyffordd?” yn hytrach na “pa fath o docyn hoffech chi?”)

### BYDDWCH YN YMWYBODOL YN SYNHWYRAIDD

Eglurwch effaith unrhyw newid yn y daith neu'r amserlen yn glir

Derbyniwch yr unigolyn yn defnyddio offer synhwyraidd megis sbectolau tywyll neu amddiffynwyr clustiau

Byddwch yn ymwybodol fod arogleuon cryf, goleuadau llachar a synau uchel yn gallu achosi pryder